

Cyngor Sir Caerfyrddin
Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin (Canol Tref
Llanelli) 2027

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") yn gwneud y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus hwn o dan adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.

Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin (Canol Tref Llanelli) 2027**.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2027 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o dair blynedd oni bai ei fod yn cael ei estyn, ei amrywio neu ei ddiddymu yn unol â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.

1. Diben y Gorchymyn

1.1 Diben y Gorchymyn hwn yw helpu i atal a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans, anhrefn a niwed cysylltiedig sy'n ymwneud ag alcohol a chyffuriau o fewn yr ardal a gwmpesir gan y Gorchymyn hwn.

1.2 Bwriedir i'r Gorchymyn gefnogi defnydd diogel a mwynhad o fannau cyhoeddus yng Nghanol Tref Llanelli gan drigolion, busnesau, ymwelwyr a'r gymuned ehangach.

1.3 Nid bwriad y Gorchymyn yw atal defnydd cyfrifol o fannau cyhoeddus. Yn benodol, **nid** yw'n gwneud yfed alcohol yn drosedd ynddo'i hun yn yr ardal a gwmpesir gan y Gorchymyn.

1.4 Bwriedir i'r pwerau yn y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio pan fo cwnstabl yr heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu lle bo wedi'i ddynodi, neu berson awdurdodedig yn credu'n rhesymol bod yfed alcohol, meddu ar alcohol, camddefnyddio sylweddau, meddu ar offer cysylltiedig â chyffuriau, loetran neu ymddygiad cysylltiedig yn achosi, yn cyfrannu at, neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans, anhrefn, aflonyddu, braw neu drallod.

1.5 Mae'r Cyngor yn fodlon bod y gweithgareddau yr ymdrinnir â hwy gan y Gorchymyn hwn wedi cael, ac yn debygol o barhau i gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal, a bod yr effaith yn barhaus neu'n debygol o fod yn barhaus, yn afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn hwn.

1.6 Wrth wneud y Gorchymyn hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i'r hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid ymgynnull a nodir yn Erthyglau 10 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

2. Alcohol: cais i roi'r gorau i yfed neu ildio alcohol

2.1 Nid yw person yn cyflawni trosedd drwy yfed alcohol yn unig o fewn yr ardal a gwmpesir gan y Gorchymyn hwn.

2.2 Fodd bynnag, pan fo cwnstabl yr heddlu neu berson awdurdodedig yn credu'n rhesymol bod yfed alcohol gan berson, meddu ar alcohol, neu fwriad i yfed alcohol yn achosi, yn cyfrannu at, neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans, anhrefn, aflonyddu, braw neu drallod, gall y cwnstabl neu'r person awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw:

a. beidio ag yfed alcohol, neu unrhyw beth y mae'r cwnstabl neu'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn alcohol; a/neu

b. ildio unrhyw beth yn ei feddiant sydd, neu y mae'r cwnstabl neu'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod, yn alcohol neu'n gynhwysydd ar gyfer alcohol.

2.3 Mae person yn cyflawni trosedd os yw, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir o dan baragraff 2.2.

2.4 Rhaid i gwnstabl yr heddlu neu berson awdurdodedig sy'n gosod gofyniad o dan baragraff 2.2 ddweud wrth y person fod methu â chydymffurfio â'r gofyniad, heb esgus rhesymol, yn drosedd.

2.5 Nid yw gofyniad a osodir gan berson awdurdodedig yn ddilys os gofynnir i'r person awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad ac yntau'n methu â gwneud hynny.

2.6 Bwriedir i'r adran hon ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. Nid yw wedi'i bwriadu i ymyrryd ag yfed cyfrifol lle nad oes sail resymol dros gredu bod ymddygiad y person yn achosi, yn cyfrannu at, neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans, anhrefn, aflonyddu, braw neu drallod.

3. Offer cysylltiedig â chyffuriau a sylweddau meddwol

3.1 Pan fo cwnstabl yr heddlu yn credu'n rhesymol bod person yn meddu ar eitem sydd wedi'i defnyddio, neu sy'n debygol o gael ei defnyddio, i gynorthwyo wrth ddefnyddio sylwedd meddwol, gall y cwnstabl ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ildio'r eitem.

3.2 At ddibenion paragraff 3.1, mae "defnyddio" yn cynnwys llyncu, chwistrellu, anadlu neu ysmygu.

3.3 Mae person yn cyflawni trosedd os yw, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir o dan baragraff 3.1.

3.4 Rhaid i gwnstabl yr heddlu sy'n gosod gofyniad o dan baragraff 3.1 ddweud wrth y person fod methu â chydymffurfio â'r gofyniad, heb esgus rhesymol, yn drosedd.

3.5 Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i nodwyddau, chwistrellau nac eitemau eraill sydd yn eu pecynnu gwreiddiol, ar yr amod bod y pecyn wedi'i selio ac nad yw wedi'i agor.

3.6 Bwriedir i'r adran hon leihau'r risg o sbwriel sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gan gynnwys nodwyddau wedi'u taflu ac eitemau eraill a all beri risg i'r cyhoedd. Ni ddylid ei defnyddio i atafaelu eiddo personol cyffredin oni bai bod y cwnstabl yn credu'n rhesymol bod yr eitem wedi'i defnyddio, neu'n debygol o gael ei defnyddio, i gynorthwyo wrth ddefnyddio sylwedd meddwol.

4. Gofyniad i adael yr ardal a pheidio â dychwelyd

4.1 Pan fo cwnstabl yr heddlu yn credu'n rhesymol bod person o fewn yr ardal a gwmpesir gan y Gorchymyn hwn:

- a. o dan ddylanwad alcohol neu sylwedd meddwol; ac
- b. yn achosi, yn cyfrannu at, neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans, anhrefn, aflonyddu, braw neu drallod,

Gall y cwnstabl ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw adael yr ardal a gwmpesir gan y Gorchymyn hwn, neu ran benodol o'r ardal honno.

4.2 Gall gofyniad o dan baragraff 4.1 hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r person beidio â dychwelyd i'r ardal, neu'r rhan benodol o'r ardal, am gyfnod o hyd at 24 awr.

4.3 Cyn gosod gofyniad o dan baragraff 4.1, rhaid i'r cwnstabl ystyried a yw'r gofyniad yn angenrheidiol ac yn gymesur yn yr amgylchiadau.

4.4 Lle bo hynny'n ymarferol, dylai'r cwnstabl ddweud wrth y person:

- a. yr ardal y mae'n ofynnol iddynt adael;
- b. y cyfnod pan na chaiff ddychwelyd;
- c. y rheswm dros osod y gofyniad; a
- d. bod methu â chydymffurfio â'r gofyniad, heb esgus rhesymol, yn drosedd.

4.5 Mae person yn cyflawni trosedd os yw, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir o dan baragraff 4.1 neu 4.2.

4.6 Ni ddylid defnyddio gofyniad o dan yr adran hon i atal person rhag:

- a. dychwelyd i'w gartref;
- b. mynd i fan gwaith, addysg, triniaeth feddygol neu apwyntiad hanfodol arall;
- c. gofalu am berson dibynnol, lle bo hynny'n rhesymol angenrheidiol;
- d. cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol; neu
- e. arfer hawliau protest heddychlun, rhyddid mynegiant neu ryddid ymgynnull, oni bai bod defnyddio'r pŵer yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur yn yr amgylchiadau.

4.7 Nid yw'r adran hon yn atal cwnstabl yr heddlu rhag defnyddio unrhyw bŵer cyfreithlon arall sydd ar gael iddo, gan gynnwys pwerau gwasgaru statudol o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 lle mae'r prawf cyfreithiol ar gyfer y pwerau hynny wedi'i fodloni.

5. Tir y mae'r Gorchymyn hwn yn effeithio arno

5.1 Yn amodol ar yr eithriadau a nodir isod, mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i bob man cyhoeddus o fewn y rhannau o Ganol Tref Llanelli a ddangosir ag ymyl llinell ddu drwchus ar y cynllun yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5.2 At y dibenion hyn, ystyr "man cyhoeddus" yw unrhyw le y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad iddo, am dâl neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg.

6. Eithriadau sy'n ymwneud ag alcohol

6.1 Nid yw paragraffau 2.1 i 2.6 yn berthnasol i:

- a. adeiladau, ac eithrio adeiladau trwyddedig a weithredir gan y Cyngor, sydd wedi'u hawdurdodi gan drwydded adeilad i gael eu defnyddio i gyflenwi alcohol;
- b. adeiladau sydd wedi'u hawdurdodi gan dystysgrif adeilad clwb i gael eu defnyddio gan y clwb i gyflenwi alcohol;
- c. lle o fewn cwrtil adeiladau sy'n dod o fewn paragraff 6.1(a) neu 6.1(b);
- d. adeiladau sydd, yn rhinwedd Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003, yn gallu cael eu defnyddio ar yr adeg berthnasol i gyflenwi alcohol, neu a allai fod wedi cael eu defnyddio felly o fewn y 30 munud cyn yr adeg honno;
- e. lle mae cyfleusterau neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu neu yfed alcohol wedi'u caniatáu ar yr adeg berthnasol o dan adran 115E o Ddeddf Priffyrdd 1980.

6.2 Nid yw paragraffau 2.1 i 2.6 yn berthnasol i adeiladau trwyddedig a weithredir gan y Cyngor:

- a. pan fo'r adeiladau yn cael eu defnyddio i gyflenwi alcohol; neu
- b. o fewn 30 munud ar ôl diwedd cyfnod pan fo'r adeiladau wedi cael eu defnyddio i gyflenwi alcohol.

6.3 At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae adeiladau yn "adeiladau trwyddedig a weithredir gan y Cyngor" os ydynt wedi'u hawdurdodi gan drwydded adeilad i gael eu defnyddio i gyflenwi alcohol ac:

- a. y Cyngor sy'n dal y drwydded; neu
- b. mae'r drwydded yn cael ei dal gan berson arall, ond mae'r adeiladau yn cael eu meddiannu gan y Cyngor, neu'n cael eu rheoli gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor.

7. Dehongli

At ddibenion y Gorchymyn hwn:

"alcohol" sydd â'r ystyr a roddir iddo gan adran 191 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

"ymddygiad gwrthgymdeithasol" yn cynnwys ymddygiad sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddu, braw, trallod, niwsans neu anhrefn i bobl yn yr ardal.

"person awdurdodedig" yw person sydd wedi'i awdurdodi gan y Cyngor at ddibenion adran 63 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014. Gall hyn gynnwys person nad yw'n gyflogai i'r Cyngor.

"tystysgrif adeilad clwb" sydd â'r ystyr a roddir iddi gan adran 60 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

"sylwedd meddwol" yw sylwedd sydd â'r gallu i ysgogi neu atal y system nerfol ganolog, ond nid yw'n cynnwys alcohol, tybaco a chynhyrchion tybaco, nicotin, caffeine, cynhyrchion meddyginiaethol fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 pan gânt eu cymryd at ddefnydd meddyginiaethol y gellir ei ddangos, nac unrhyw sylwedd a gaiff ei fwyta neu ei yfed fel bwyd fel arfer, gan gynnwys diod.

"cwnstabl yr heddlu" yw aelod neu gwnstabl arbennig o Heddlu Dyfed-Powys sydd wedi'i ardystio fel cwnstabl o dan adran 29 o Ddeddf yr Heddlu 1996, neu aelod o staff sifil neu wirfoddolwr sydd wedi'i ddynodi gan Heddlu Dyfed-Powys gyda'r pŵer i orfodi'r Gorchymyn hwn.

"trwydded adeilad" sydd â'r ystyr a roddir iddi gan adran 11 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

"cyflenwi alcohol" sydd â'r ystyr a roddir iddo gan adran 14 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

8. Cosbau

8.1 Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff 2.3 yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol.

8.2 Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff 3.3 yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

8.3 Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff 4.5 yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.